



3-SET

**The Third Sector
European Team**

**Tîm Ewropeaidd
y Trydydd Sector**

Gwybodaeth am Gymorth Gwladwriaethol

Gwybodaeth am Gymorth
Gwladwriaethol ar gyfer
mudiadau trydydd sector

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Beth mae'r term 'cymorth gwladwriaethol' yn ei olygu?
3. Sut mae rheolau cymorth gwladwriaethol yn effeithio ar y trydydd sector?
4. Cwestiwn allweddol
5. Rhoi cymorth gwladwriaethol yn gyfreithlon
6. Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol
7. Cymorth de minimis
8. Gwasanaethau o fudd economaidd cyffredinol (SGEIs)
9. Cronfeydd Strwythurol a chymorth gwladwriaethol
10. Gwneud camgymeriad
11. Peidiwch â mynd i banig!
12. Atodiad Un

Cyflwyniad

Diben rheolau cymorth gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd yw rheoleiddio cystadleuaeth er mwyn sicrhau chwarae teg yn y farchnad sengl Ewropeaidd. Mae'r rheolau'n berthnasol i unrhyw gyllid cyhoeddus (nid i gyllid Ewropeaidd yn unig) a roddir i fudiadau sy'n ymwneud â gweithgaredd economaidd. Mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswydd i sicrhau bod unrhyw gymorth cyhoeddus a ddyfernir yn cydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol.

Wrth i'r pwysau gynyddu i fod yn hunangynhaliol a'r galw'n cynyddu am wasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan y trydydd sector, mae mwy a mwy o fudiadau trydydd sector nawr yn ymwneud â rhyw fath o weithgaredd economaidd ac felly'n disgyn o dan reolau cymorth gwladwriaethol.

Diben y daflen wybodaeth hon yw:

- Codi ymwybyddiaeth o reolau cymorth gwladwriaethol a sut maen nhw'n berthnasol i'r trydydd sector
- Cynorthwyo mudiadau trydydd sector i bennu a yw rheolau Cymorth Gwladwriaethol yn berthnasol iddyn nhw
- Darparu gwybodaeth am atebion posibl i ymholiadau ynghylch cymorth gwladwriaethol
- Egluro canlyniadau posibl anwybyddu rheolau cymorth gwladwriaethol

Beth mae'r term 'cymorth gwladwriaethol' yn ei olygu?

Rhaid i Lywodraethau pob un o Aelod-wladwriaethau Ewrop gydymffurfio â rheolau'r Gymuned Ewropeaidd (CE) wrth roi cymorthdaliadau/grantiau ar gyfer gweithgareddau masnachol sy'n gweithredu yn yr Undeb Ewropeaidd (UE). Os oes gan y cymorthdaliadau hyn y **potensial** i gamliwio'r gystadleuaeth ac effeithio ar fasnach rhwng Aelod-wladwriaethau fe'u gelwir yn 'gymorth gwladwriaethol'. Nod cyffredinol rheolau cymorth gwladwriaethol, felly, yw sicrhau chwarae teg i gystadleuaeth rydd a theg yn y farchnad Ewropeaidd sengl.



Dolen Allanol

Gellir cael canllaw ar ar gymorth gwladwriaethol yma:
[Y Comisiwn Ewropeaidd - Cystadleuaeth a Chymorth Gwladwriaethol](#)
[Llywodraeth y DU - Arweiniad ar Gymorth Gwladwriaethol](#)
[Llywodraeth Cymru - Cymorth Gwladwriaethol](#)

Pam y gall achosi problem os bydd mudiad yn cael cymorth gan y llywodraeth?

Mae rheolau cymorth gwladwriaethol yn berthnasol i gymorth (o unrhyw fath) a roddir i "fenter" gan gyrff cyhoeddus, hynny yw, mudiad sy'n ymwneud â gweithgaredd economaidd.

Gall cymorth gwladwriaethol roi mantais i fusnes ar draul ei gystadleuwyr; gall olygu bod busnesau sy'n gwneud colled yn aros yn y farchnad yn hwy nag y dylent, ac nad yw busnesau eraill yn dod i mewn i'r farchnad.

Yn y pen draw, gall hyn olygu prisiau uwch i gwsmeriaid. Drwy reoli lefel y cymorth gwladwriaethol a ddyfernir, gall y Comisiwn Ewropeaidd (CE) sicrhau chwarae teg i fusnesau ar hyd a lled yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, marchnad sengl ddynamig ac effeithiol a phrisiau is i gwsmeriaid.

Sut mae rheolau cymorth gwladwriaethol yn effeithio ar y trydydd sector?

Mae rheolau cymorth gwladwriaethol yn berthnasol i fudiadau sy'n cael cymorth cyhoeddus am gynnal gweithgaredd economaidd ('mentrau'). Rhoddir cymorth cyhoeddus i ystod eang o fudiadau trydydd sector gan gynnwys elusennau, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Mae llawer o'r rhain yn cyflawni gweithgareddau economaidd. Mae'r ffaith fod gan fudiadau trydydd sector amcanion cymdeithasol a bod ganddyn nhw ethos 'nid er elw' yn amherthnasol; caiff cymorth gwladwriaethol dim ond ei ystyried o ran yr effaith a gaiff ar gystadleuaeth ar draws y farchnad sengl.

Asesir cymorth gwladwriaethol o ran y **gweithgaredd** sy'n cael ei gyflawni yn hytrach na'r **math** o fudiad neu sector sy'n ei gyflawni. Ystyrir mudiadau trydydd sector yn fentrau pan fyddant yn cyflawni gweithgareddau economaidd. Pan roddir cyllid i gefnogi mentrau trydydd sector, mae angen ystyried a yw'r cymorth a ddarperir yn cael ei gyfrif yn gymorth gwladwriaethol drwy gyfeirio at y pum prawf a nodir isod. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd pob cymorth yn cael ei ystyried yn gymorth gwladwriaethol. Er enghraifft, gall fod yn bosibl dadlau, o dan rai amgylchiadau, na fodlonir un neu fwy o'r profion.

Hyd yn oed pan fo cymorth yn gymorth gwladwriaethol, mae cwmpas eang i ddatblygu pecynnau cymorth priodol yn unol â darpariaethau a nodir yn y rheolau cymorth gwladwriaethol. Cymorth i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau) yw un o flaenoriaethau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer twf economaidd, creu swyddi a chydlyniant economaidd a chymdeithasol. Mae'r rheolau cymorth gwladwriaethol yn caniatáu i lefel hael o gymorth gwladwriaethol gael ei ddyfarnu i BBaChau mewn perthynas ag amcanion penodol. Bydd y mwyafrif o fudiadau trydydd sector sy'n chwilio am gymorth yn cael eu hystyried yn BBaChau ac mae mesurau hael a rheolau symlach ar waith bellach i alluogi cymorth gwladwriaethol i gael ei ddyfarnu pan fo'n briodol.

Mae awdurdodau cyhoeddus yn gyfrifol am sicrhau bod eu mesurau polisi a'u prosiectau yn cydymffurfio â'r rheolau, a'r arfer gorau yw rhoi gwybod i'r derbynnydd ynglŷn â natur y cymorth a ddyfernir. Mae gan dderbynwyr cymorth gyfrifoldeb hefyd i sicrhau eu bod yn deall statws cymorth gwladwriaethol unrhyw gymorth a geir. Os nad ydych chi'n siŵr o statws y cymorth rydych wedi'i gael, argymhellwn eich bod yn gofyn am gadarnhad gan y mudiad a roddodd y cyllid, neu geisio cyngor arbenigol.

Cwestiwn allweddol

Mae pump o feini prawf neu gwestiynau y mae angen eu hystyried er mwyn canfod a yw cymhorthdal yn gyfystyr â chymorth gwladwriaethol. Os bodlonir **pob un o'r pum** maen prawf, mae cymorth gwladwriaethol yn bresennol ac mae'r rheolau yn berthnasol. Os ymddengys nad oes un neu ragor o'r meini prawf wedi'u bodloni, yna mae'r cymorth/cymhorthdal cyhoeddus yn annhebygol o fod yn gymorth gwladwriaethol.

Dyma'r pum cwestiwn cymorth gwladwriaethol i'w gofyn:

1. A yw'r mesur yn cael ei roi gan y Wladwriaeth neu drwy adnoddau'r Wladwriaeth?

Ystyrir bod cyllid gan Lywodraeth Ganolog, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn gyllid a roddir gan y Wladwriaeth. Yn ogystal, ystyrir cyllid yn adnoddau'r Wladwriaeth pan fo gan y Wladwriaeth ddisgresiwn ar y defnydd o'r arian, er enghraifft, ystyrir arian y Gronfa Loteri Fawr ac arian Ewropeaidd a ddyfernir drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn adnoddau'r Wladwriaeth.

Gall y Cymorth fod ar amrywiol ffurfiau, gan gynnwys:

- Grantiau neu gymorthdaliadau
- Gostyngiadau yn y dreth neu ad-daliadau ardrethi
- Benthyciadau llog isel
- Gwarantau'r Wladwriaeth
- Darparu nwyddau neu wasanaethau am ddim neu ar gyfraddau ffafriol

2. A yw'r mesur yn rhoi mantais i fenter na fyddai fel arall yn ei chael?

Bydd menter yn cael mantais pan fydd yn cael cymorth am ddim neu ar delerau ffafriol (anfasnachol). Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo adnoddau yn uniongyrchol, megis grantiau neu fenthyciadau llog isel, ynghyd â chymorth anuniongyrchol – er enghraifft, rhyddhad rhag costau y mae'n rhaid i fenter fel arfer eu hysgwyddo, megis rhyddhad rhag treth neu ddarparu cymorth ymgynghorol neu hyfforddiant am ddim neu â chymhorthdal.

3. A yw'r mesur yn ddetholus gan ffafrio mentrau penodol dros eraill?

Mae cymorth sy'n targedu busnesau, lleoliadau, mathau o fentrau (e.e. BBaChau), neu sectorau penodol yn cael ei ystyried yn ddetholus. Nid yw mesur **cyffredinol** sy'n effeithio ar economi'r Wladwriaeth gyfan, megis mesurau ariannol cenedlaethol yn cael ei ystyried yn ddetholus.

4. A yw'r mesur yn camliwio neu'n bygwth camliwio'r gystadleuaeth

Os yw'r cymorth yn cryfhau sefyllfa'r buddiolwr o'i gymharu â chystadleuwyr eraill, mae'r maen prawf hwn yn debygol o gael ei fodloni. Nid oes yn rhaid i'r potensial i gamliwio'r gystadleuaeth fod yn sylweddol nac yn arwyddocaol. Mae cystadleuaeth yn debygol o gael ei chamliwio pan fo menter yn cael mantais.

Mae gan y rhan fwyaf o ymyriadau, felly, y **potensial** i gamliwio'r gystadleuaeth.

5. A yw'r gweithgaredd yn effeithio ar fasnachu rhwng Aelod-wladwriaethau?

Mae dehongliad y Comisiwn Ewropeaidd o'r prawf hwn yn eang. Mae'n ddigon i'r gwasanaeth neu'r cynnyrch fod yn farchnatadwy ar draws Aelod-wladwriaethau. Nid oes yn rhaid i fuddiolwr y cymorth fod yn rhan o weithgareddau ar draws ffiniau.

O'r herwydd, ystyrir bod y rhan fwyaf o weithgareddau yn farchnatadwy ledled Aelod-wladwriaethau.



Gwybodaeth

Gweler Atodiad Un am ragor o wybodaeth:
[Atodiad Un: Siart Penderfynu ar Gymorth Gwladwriaethol](#)

Rhai enghreifftiau o gymorth gwladwriaethol

Mae enghreifftiau o gymorth gwladwriaethol yn cynnwys:

- Grantiau i fentrau ar gyfer buddsoddi, ymchwilio neu ddatblygu, hyfforddiant gweithwyr, ac ati
- Benthyciadau a gwarantau sy'n is na chyfraddau'r farchnad
- Cyngor ymgynghorol am ddim neu â chymhorthdal
- Chwistrelliadau arian a diddymu colledion mentrau cyhoeddus
- Gwerthu neu brydlesu tir neu eiddo cyhoeddus ar gyfraddau is
- Gohirio neu ryddhau dewisol rhag taliadau treth, nawdd cymdeithasol a thaliadau eraill i'r Wladwriaeth
- Deddfwriaeth i warchod neu warantu cyfran o'r farchnad
- Chwistrelliadau arian/cyllid i fentrau cymdeithasol nid er elw, cwmnïau cymunedol a rhai elusennau
- Rhoi arian cyhoeddus i seilwaith dan berchnogaeth breifat.

Mae cymorth **nad** yw'n gymorth gwladwriaethol yn cynnwys:

- Cymorth i unigolion, elusennau, mudiadau a chyrrff cyhoeddus nad ydynt yn ymwneud â gweithgaredd economaidd
- Taliadau masnachol am wasanaethau a gyflwynir, lle mae cwmni dan gontract â chorff cyhoeddus yn unol â gofynion tendro cystadleuol
- Mesurau cyffredinol, a all fod yn berthnasol i bob cwmni ledled y DU, heb unrhyw bŵer dewisol

Rhoi cymorth gwladwriaethol yn gyfreithlon

Mae'r CE yn derbyn bod angen i'r wladwriaeth ymyrryd o dan rai amgylchiadau ac felly mae wedi cyhoeddi set o ganllawiau, fframweithiau a rheoliadau, a elwir yn rheolau cymorth gwladwriaethol. Mae'r rhain yn nodi o dan ba amodau y gall awdurdodau cyhoeddus roi cymorth gwladwriaethol yn gyfreithlon.

Ymysg y rheolau allweddol sy'n berthnasol i fudiadau trydydd sector y mae:

- Rheoliad Esemptiad Bloc Cyffredinol (GBER)
- Rheoliad De minimis
- Rheolau cymorth gwladwriaethol sy'n berthnasol i Wasanaethau o fudd economaidd cyffredinol (SGEI)

Mae diwygiadau diweddar i'r rheolau hyn yn ei gwneud yn gynt ac yn haws i weinyddwyr cymorth ddyfarnu cymorth gwladwriaethol ar draws ystod eang o amcanion heb angen hysbysu'r Comisiwn yn uniongyrchol.

Rheoliad Esemptiad Bloc Cyffredinol

Mae'r Rheoliad Esemptiad Bloc Cyffredinol (GBER) yn galluogi cymorth i gael ei ddyfarnu'n uniongyrchol i gefnogi gweithgaredd allweddol. Mae'r rheoliad yn nodi'r rheolau penodol y gellir dyfarnu'r cymorth oddi tanynt. Mae'n ymdrin â'r canlynol:

- Y gweithgaredd y gellir ei gefnogi
- Y costau cymwys y gellir eu cyllido
- Canran y cymorth y gellir ei dyfarnu
- Uchafswm y cymorth y gellir ei ddarparu
- Meini prawf penodol ar gyfer pob maes cymorth



Dolen Allanol

Mae Llywodraeth y DU wedi llunio canllawiau ar esemptiadau
Cymorth Gwladwriaethol:

[Cymorth Gwladwriaethol - Canllawiau Esemptiad Bloc Cyffredinol](#)

Mae'r GBER yn ymdrin â 26 o feysydd gweithgaredd, gan gynnwys:

- Cymorth buddsoddi cyfalaf a chymorth cyflogaeth
- Cymorth i BBaChau ar gyfer ymgynghoriaeth untro a chymryd rhan mewn ffeiriau/arddangosfeydd
- Cymorth amgylcheddol
- Ymchwil a datblygu
- Cymorth arloesi
- Cyfalaf risg
- Cymorth hyfforddi
- Cymorth i weithwyr dan anfantais a gweithwyr anabl
- Cadwraeth treftadaeth a diwylliant
- Seilweithiau chwaraeon a hamdden amldeffnydd
- Seilwaith lleol



Dolen Allanol

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion cynlluniau GBER cofrestredig yng Nghymru
[Cynlluniau GBER yng Nghymru](#)

Cymorth de minimis

Mae cymorth de minimis yn derm generig am symiau bychan o arian cyhoeddus a ddyfernir i un derbynnnydd. Y trothwy de minimis ar hyn o bryd yw €200,000 (tua £160,000) dros gyfnod treigl o dair blynedd ariannol.

Nid yw'r CE yn credu bod y lefel hon o gyllido yn cael effaith fawr ar fasnach a chystadleuaeth, ac nid yw, felly, yn cael ei gyfrif yn gymorth gwladwriaethol. Mae'r trothwy'n gronnus i bob cymorth de minimis y mae mudiad unigol yn ei gael o bob ffynhonnell.

Gellir defnyddio cymorth de minimis at unrhyw ddiben ac nid yw'n gysylltiedig ag amcanion na gweithgareddau penodol. Mae rhai sectorau, fodd bynnag, wedi'u heithrio gan gynnwys amaethyddiaeth, pysgodfeydd a chludo nwyddau ar y ffordd. Mae gofynion gweinyddol llym yn gysylltiedig â dyfarnu cymorth de minimis ar y cyllidwr yn ogystal â'r sawl sy'n cael y cymorth.

Dylai'r awdurdod cyhoeddus roi gwybod i dderbynyddion ynglŷn â natur de minimis y cymorth y maen nhw'n ei gael. Gellir dim ond dyfarnu cymorth os nad yw'r trothwy de minimis wedi'i dorri, ac yn aml, bydd angen i fuddiolwyr hunanardystio lefel y cymorth de minimis y maen nhw wedi'u derbyn yn flaenorol.



Dolen Allanol

Mae canllawiau pellach wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar Gymorth De Minimis:

[Llywodraeth Cymru - Cynllun Cymorth De Minimis](#)

Gwasanaethau o fudd economaidd cyffredinol (SGEIs)

Gwasanaethau o fudd economaidd cyffredinol (SGEI) yw gweithgareddau economaidd y maen awdurdodau cyhoeddus yn eu nodi fel rhai o bwys arbennig i ddinasyddion, ac na fyddai'n cael eu cyflenwi (neu a fyddai'n cael eu cyflenwi o dan amodau gwahanol) pe na bai ymyrraeth gyhoeddus.

Cysyniad gwasanaethau o fudd economaidd cyffredinol yw sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd yn cael ei ddarparu am bris fforddiadwy ym mhob man i bawb, a gall hyn fod yn berthnasol iawn mewn gwlad wledig fel Cymru.

Ymysg yr enghreifftiau y maen gwasanaethau masnachol mawr sy'n darparu cymorth ar gyfer y boblogaeth gyfan o dan amodau fforddiadwy e.e. rhwydweithiau trafniadaeth gyhoeddus, gwasanaethau post, tai cymdeithasol ac ystod eang o wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae awdurdodau cyhoeddus yn rhoi iawndal i fudiadau am ddarparu gwasanaethau o fudd economaidd cyffredinol (hynny yw, gwasanaethau cyhoeddus). Mae rheolau cymorth gwladwriaethol penodol wedi'u cyflwyno i sicrhau nad yw iawndal am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o'r fath yn camliwio'r gystadleuaeth yn ormodol yn y farchnad.



Dolen Allanol

Ceir canllawiau gan y Comisiwn Ewropeaidd ar SGEIs (yn yr adran cwestiynau cyffredin) sy'n egluro sut maen rheolau'r UE ym meysydd cymorth gwladwriaethol, caffael cyhoeddus a'r farchnad fewnol yn berthnasol i SGEIs. Mae'r canllawiau'n rhoi atebion syml a chynhwysfawr i'r cwestiynau cyffredin a ofynnir gan awdurdodau cyhoeddus, defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill:

[Canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar SGEIs](#)

Mae'r Comisiwn yn ceisio sicrhau bod gofyniad ar weithredwr y gwasanaeth i gael rhwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus glir ac nad oes goriawndal yn cael ei ddarparu.



Dolen Allanol

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth am SGEIs:

[Llywodraeth Cymru - Gwybodaeth am SGEI](#)

Cronfeydd Strwythurol a chymorth gwladwriaethol

Rhaid i brosiectau sy'n cael grantiau drwy raglenni'r Cronfeydd Strwythurol gael eu hasesu o dan y rheolau cymorth gwladwriaethol drwy gyfeirio at y pum prawf cymorth gwladwriaethol. Pan ystyrir bod cymorth yn gymorth gwladwriaethol, yna rhaid rhoi sicrwydd priodol yn ei le ar gyfer yr holl gyllid cyhoeddus a dderbynnir (Cronfeydd Strwythurol a chyllid cyfatebol gan awdurdodau cyhoeddus eraill).

Gwneud camgymeriad

Mae'r CE yn credu nad yw cymorth gwladwriaethol yn gydnaws â'r farchnad gyffredin a'i fod yn niweidio cystadleuaeth a masnach ar draws ardal y CE. O ganlyniad, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gwgu ar gymorth a ddarperir heb ei gymeradwyaeth ac yn gwgu'n ofnadwy ar gymorth sy'n torri'r rheolau cymorth gwladwriaethol.

O dan yr amgylchiadau hyn, gall fod canlyniadau difrifol:

- Gellir stopio'r taliadau cymorth
- Gallai fod angen i'r derbynnydd ad-dalu'r cymorth, **yn ogystal â llog**
- Gallai cystadleuwyr y tramgwyddwyd yn eu herbyn ddechrau achos cyfreithiol am iawndal
- Gallai'r Comisiwn ddechrau gweithdrefnau tor rheolau yn erbyn y DU, a gallai hyn o bosib arwain at ddirwy.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi mwy a mwy o bwysigrwydd ar reolau cymorth gwladwriaethol, felly mae'n eithriadol o bwysig pennu a yw eich prosiect yn cael ei ystyried yn gymorth gwladwriaethol ac os ydyw, sut y gellid ei ariannu o fewn y rheolau.

Peidiwch â mynd i banig!

Os ydych wedi ateb y pum cwestiwn a'ch bod yn credu y gallai cymorth gwladwriaethol fod yn berthnasol i'ch prosiect(au), peidiwch â mynd i banig! Mae'n bwysig ceisio cyngor arbenigol gan rywun a all ystyried eich achos unigol, ac efallai wneud argymhellion ynghylch sut y gellid goresgyn problemau posibl. Gellir ailstrwythuro prosiectau i ddileu cymorth gwladwriaethol neu gysoni cyllid â'r hyn a ganiateir o dan y rheolau cymorth gwladwriaethol.

Bwriedir y ddalen wybodaeth hon fel adnodd i'ch cael chi i feddwl am gymorth gwladwriaethol a'r goblygiadau, ni fwriedir iddi fod yn ganllaw terfynol. Mae pob enghraifft yn wahanol a bydd angen ymdrin â phob achos yn wahanol.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Linell Cyngor Cyllido CGGC:

Ffôn: 0300 111 0124

e-bost: funding@wcva.cymru

Dyddiad adolygu: mis Mehefin 2019



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a
Buddosoddi Ewropeaidd**
**European Structural
and Investment Funds**

Atodiad Un

Proses Penderfynu ar Gymorth Gwladwriaethol – Dyfarnu cymorth yn uniongyrchol i Fuddiolwyr

